# CYFLEUSTERAU GOFAL PLANT

## CANLLAW CYNLLUNIO ATEGOL



Tachwedd 2017

CARDIFF
CAERDYDD

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Cyd-destun Polisi | 1 |
| | Polisi Cenedlaethol | 1 |
| | Polisi Lleol | 2 |
| 3. | Cwmpas y Canllaw | 3 |
| 4. | Yr Angen am Leoedd Gofal Plant | 4 |
| 5. | Lleoliadau Priodol ar gyfer Cyfleusterau Gofal Plant | 4 |
| 6. | Ystyriaethau Eraill | 6 |
| 7. | Amodau | 7 |
| 8. | Gofynion Cyflwyno Cais Cynllunio | 7 |


**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Nodyn Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA) hwn yn ategu polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Caerdydd yn ymwneud â'r ddarpariaeth o gyfleusterau gofal plant.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd o Ganllawiau Cynllunio Ategol i nodi canllawiau manwl ar y ffordd y caiff polisïau cynllunio datblygu eu rhoi ar waith mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Rhaid i'r CCA fod yn gyson â pholisïau cynllunio datblygu a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Maent yn helpu i sicrhau y caiff polisïau a chynigion penodol eu deall yn well a'u gweithredu'n fwy effeithiol. Nid oes ganddynt yr un statws â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd ond maent yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.3 Mae'r CCA hwn wedi'i lunio i gynnig rhagor o fanylion ar y polisïau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl:

- KP13 'Ymateb i Anghenion Cymdeithasol Amlwg';
- H4 'Newid Defnydd Tir Preswyl neu Eiddo';
- EC2 'Darparu Cyfleusterau Ategol ar gyfer Cyflogeion mewn Datblygiadau Busnes, Diwydiannol a Warws';
- EC4 'Diogelu Swyddfeydd yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae';
- C7 'Cynllunio ar gyfer Ysgolion'.

1.4 Y bwriad yw:

- Nodi datblygiadau y mae'r polisïau'n berthnasol iddynt;
- Nodi lleoliadau ac eiddo sy'n dderbyniol mewn egwyddor ar gyfer cyfleusterau gofal plant; a
- Rhoi cyngor i ddarpar ymgeiswyr a'r cyhoedd ar y meini prawf yr ystyrir cynigion am gyfleusterau gofal plant yn eu herbyn.

## 2. CYD-DESTUN POLISI

**POLISI CENEDLAETHOL**

2.1 Mae **Deddf Gofal Plant 2006** yn egluro'r rôl y mae Awdurdodau Lleol yn ei chwarae o ran darparu gofal plant yn eu hardaloedd. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau, cyhyd â bod hynny'n rhesymol ymarferol, ddarpariaeth ddigonol, gynaliadwy a hyblyg o ofal plant sy'n ymateb i anghenion rhieni a phlant. Mae Adran 22 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau digon o ofal plant i fodloni anghenion rhieni/gofalwyr yn yr ardal y mae angen gofal plant arnynt er mwyn hyfforddi, gweithio neu astudio. Mae Adran 26 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i asesu digonolrwydd gofal plant yn ei ardal drwy gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant bob tair blynedd sy'n asesu'r cyflenwad a'r galw am ofal plant yn ardal yr Awdurdod Lleol a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Bydd hyn yn cael ei adolygu drwy gydol y broses o gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol.

2.2 Nod **Adeiladu Dyfodol Disgleiriach: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013)** yw cefnogi a datblygu'r farchnad gofal plant mewn partneriaeth â'r sector gofal plant ac awdurdodau lleol i gynyddu capasiti a sicrhau cynaliadwyedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector gofal plant ac awdurdodau lleol i gynyddu capasiti ac ansawdd y farchnad gofal plant.

2.3 Mae **Llythyr Egluro Polisi CL-01-16 'Cynllunio a Gofal Plant yng Nghymru' (2016) Llywodraeth Cymru** yn ail-bwysleisio bod mynediad i ofal plant fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac y dylai awdurdodau cynllunio lleol gefnogi datblygiad gwasanaethau gofal plant ar gyfer plant a theuluoedd. Wrth lunio polisi cynllunio, ystyried ceisiadau cynllunio a darparu cyngor cyn gwneud cais, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr holl ffactorau perthnasol yn yr ardal leol a'r angen lleol am leoedd gofal plant yn llawn. Mae'n nodi bod Adran 7.2 **Polisi Cynllunio Cymru (2016)** yn dynodi y dylai penderfyniadau rheoli datblygu ystyried polisïau datblygu lleol a thystiolaeth sy'n benodol i ardaloedd lleol. Dylai tystiolaeth o'r fath gynnwys Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a gynhelir gan Awdurdodau Lleol.

**POLISI LLEOL**

2.4 Mae'r CCA yn rhoi mwy o fanylion ar bolisïau CDLl KP13, H4, EC2, EC4 a C7 ac yn cefnogi'r Agenda Dinasoedd Byw.

2.5 Mae Polisi **KP13 'Ymateb i Dystiolaeth o Anghenion Cymdeithasol'** yn nodi y bydd datblygu cymdogaethau cynaliadwy, taclo amddifadedd a gwella ansawdd bywyd pawb yn rhan allweddol o ddatblygiad llwyddiannus y ddinas. Dyma un o'r ffyrdd y caiff hyn ei gyflawni:
'v. Annog darpariaeth o amrywiaeth lawn o gyfleusterau cymdeithasol, iechyd, hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol ar gyfer cymunedau presennol a chymunedau newydd sy'n hygyrch i bawb drwy gerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;'

2.6 Mae Polisi **H4 'Newid Defnydd Tir Preswyl ac Eiddo'** yn nodi'r canlynol fel un o'r amgylchiadau lle caniateir trosi neu ailddatblygu eiddo preswyl:
'ii. Mae'r cynnig ar gyfer defnydd cymunedol angenrheidiol o fewn ardal breswyl.'
Mae Paragraff 5.16 yn nodi:
'Mae amrywiaeth o ddefnydd cymunedol sy'n briodol ac angenrheidiol, mewn egwyddor, o fewn ardaloedd preswyl. Mae'r rhain yn cynnwys cymorthfeydd meddygon a deintyddion, cartrefi preswyl a chyfleusterau gofal plant.'

2.7 Mae Polisi **EC2 'Darparu Cyfleusterau Ategol ar gyfer Cyflogeion mewn Datblygiadau Busnes, Diwydiannol a Warws'** yn nodi bod gofal plant yn un o amrywiaeth o ddefnyddiau ategol y gellir eu hystyried yn briodol mewn datblygiadau swyddfa, diwydiannol a warws gan gymryd bod y cyfleuster o faint a natur briodol gyda'r bwriad pennaf o fodloni anghenion gweithwyr yn y cyffiniau, gan felly beidio â denu lefelau sylweddol o ymwelwyr i'r ardal, neu waethygu sefyllfa'r traffig. Mae Paragraff 5.44 yn nodi, mewn ardaloedd cyflogaeth presennol, yr ystyrir newid defnydd o safleoedd presennol ar gyfer cyfleusterau ategol priodol, gan gynnwys gofal plant.

2.8 Mae **EC4** yn ymwneud â **'Diogelu Swyddfeydd yn Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae'**. Mae Paragraff 5.61 yn nodi:
'Lle bo cynigion yn ymwneud â cholli gofod swyddfa, cânt ond eu caniatáu lle nad ydynt yn niweidio a'u bod yn ategu prif rôl a swyddogaeth swyddfa'r ardal ac yn unol â pholisïau eraill y Cynllun. Gallai defnyddiau o'r fath gynnwys cyfleusterau gofal plant...'

2.9 Mae Paragraff 5.354 polisi **C7 'Cynllunio ar gyfer Ysgolion'** yn nodi, wrth gynllunio ysgolion newydd, y dylid achub ar gyfleoedd i rannu adeiladau a chyfleusterau ysgol neu gydleoli ar safleoedd a rennir gyda Gwasanaethau eraill y Cyngor a gwasanaethau allanol dethol. Gallai cyfleoedd i rannu cyfleusterau gynnwys cyfleusterau gofal plant integredig.

2.10 Mae cyfleusterau gofal plant yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i rieni a gofalwyr sydd am weithio, hyfforddi neu astudio i ffwrdd o’u plant. Bydd cyflenwad priodol o ofal plant hygyrch a fforddiadwy o ansawdd yn helpu i gefnogi a darparu **Agenda Dinas Byw** Caerdydd drwy gefnogi rhieni a gofalwyr plant i gyflawni eu potensial llawn drwy waith, hyfforddiant neu astudiaeth a fydd yn cyfrannu tuag at economi lewyrchus a ffyniannus Caerdydd.

## 3. CWMPAS Y CANLLAW

3.1 Mae’r ddogfen hon yn rhoi canllaw ar asesu cynigion ar gyfer:

- Adeiladau newydd ar gyfer cyfleusterau gofal plant;
- Newid defnydd adeilad neu safle presennol i gyfleuster gofal plant;
- Addasu cyfleusterau gofal plant presennol, megis ymestyn safleoedd neu eu defnyddio'n fwy;
- Amrywio amodau sydd wedi'u hatodi i ganiatâd cynllunio presennol ar gyfer cyfleuster gofal plant, megis y rheini sy'n cyfyngu ar oriau agor neu nifer y plant sy'n derbyn gofal.

3.2 Mae’r cyfleusterau gofal plant y cyfeirir atynt yn cynnwys:

- Meithrinfeydd Dydd - staff hyfforddedig yn gofalu am blant, hyd at bump oed yn bennaf, mewn safleoedd annomestig;
- Crèche – cynnig gofal sesiynol i blant dan 12 oed, fel arfer yn gweithredu am o leiaf ddwy awr y dydd, mewn safleoedd annomestig;
- Grwpiau Chwarae/Cylch Meithrin - cynnig gofal sesiynol i blant dan bump oed, fel arfer am lai na phedair awr y dydd, mewn safleoedd annomestig;
- Gwarchod Plant - person yn gofalu am o leiaf un plentyn dan 12 oed mewn safle domestig am dâl, fel arfer yng nghartref y gwarchodwr plant ei hun;
- Clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a chynlluniau chwarae gwyliau – lle byddai’r rhain yn cael eu cynnal mewn safleoedd hunangynhwysol yn hytrach nag o fewn adeiladau cymunedol sydd eisoes yn bodoli fel ysgolion, canolfannau cymunedol, neuaddau chwaraeon ac ati.

3.3 Dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, mae defnyddiau cymunedol o fewn dosbarth defnydd D1 yn cynnwys:

- Canolfannau iechyd;
- Crèche;
- Ysgolion;
- Amgueddfeydd;
- Llyfrgelloedd;
- Neuaddau;
- Addoldai;
- Neuaddau eglwys.

3.4 Os yw’r defnydd cyfreithlon presennol o fewn dosbarth defnydd D1, nid yw'n debygol y bydd angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio'r adeilad, neu ran ohono, at ddibenion gofal plant oni bai bod yr adeilad yn amodol ar amod sy’n cyfyngu newid defnydd o fewn yr un dosbarth defnydd. Os nad oes gan yr adeilad ganiatâd cynllunio ar gyfer un o’r defnyddiau hyn, byddai

angen caniatâd cynllunio i ddefnyddio’r adeilad cyfan, neu ran ohono, fel cyfleuster gofal plant.

3.5 Nid oes angen caniatâd cynllunio fel arfer pan fo’r defnydd o ran o gartref at ddibenion gwarchod plant yn newid defnydd eiddo fel annedd. Gall plant gael eu gwarchod mewn annedd neu ei gwrtil heb fod angen caniatâd cynllunio, gan gymryd bod y defnydd yn parhau’n ategol i brif ddefnydd preswyl y tŷ. Lle nad yw'r defnydd yn ategol i'r prif ddefnydd preswyl mwyach, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried bod 'newid defnydd sylfaenol’ wedi digwydd, a byddai angen caniatâd cynllunio. Gellid ystyried bod newid defnydd sylfaenol wedi digwydd lle bo busnes gwarchod plant yn arwain at ymwelwyr, traffig, sŵn neu darfu ar lefel uwch na'r hyn y gellid ei ddisgwyl o gartref heb ddefnydd ategol.

3.6 Yr awdurdod cynllunio lleol fydd yn dod i benderfyniad ynghylch a yw’r defnydd gwarchod plant yn ategol i brif ddefnydd yr adeilad fel annedd neu'n gyfystyr â newid defnydd. Dylai ymgeiswyr gysylltu â’r gwasanaeth Rheoli Datblygu i gadarnhau a oes angen caniatâd cynllunio, neu i gyflwyno cais ffurfiol am gyngor cyn cais. Gall darparwyr posibl hefyd gyflwyno cais am Dystysgrif Datblygu Cyfreithlon i benderfynu'n ffurfiol a oes angen caniatâd cynllunio at ddefnydd gwarchod plant. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.caredydd.gov.uk/cynllunio neu drwy ffonio 029 2233 0800.

## 4. YR ANGEN AM LEOEDD GOFAL PLANT

4.1 Mae’r Cyngor yn cynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) bob tair blynedd i asesu'r cyflenwad a’r galw am ofal plant yng Nghaerdydd a nodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth. Bydd hyn yn cael ei adolygu drwy gydol y broses o gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol. Mae’r ADGP yn nodi bylchau daearyddol yn y ddarpariaeth mewn wardiau penodol yn ogystal â bylchau mewn anghenion ledled y ddinas, fel darpariaeth i blant anabl. Byddwn yn ceisio cyngor gan y Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant ar yr angen am leoedd gofal plant ychwanegol.

## 5. LLEOLIADAU PRIODOL AR GYFER CYFLEUSTERAU GOFAL PLANT

5.1 Y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer cyfleusterau gofal plant newydd fydd y rheini mewn ardaloedd lle mae angen lleoedd gofal plant ychwanegol, lle bo'r cyfleusterau arfaethedig yn cyd-fynd â defnydd tir cyfagos, lle bo'r lleoliad yn hygyrch a bod y cynnig yn lleihau'r angen i deithio a dibyniaeth ar gar preifat. Dylai lleoliad cyfleusterau gofal plant gael ei ystyried yn ofalus oherwydd gall arwain at effeithiau fel sŵn a thraffig.

5.2 Am y rhesymau hyn, yr ardaloedd canlynol, mewn egwyddor, sydd fwyaf priodol ar gyfer cyfleusterau gofal plant:

- Ardaloedd diwydiannol a swyddfa – Tir Cyflogaeth Presennol, Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a’r Bae (fel y dangosir ar Fap Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol), ardaloedd cyflogaeth llai eraill a datblygiadau cyflogaeth newydd arfaethedig;
- Ardaloedd siopa – Ardal Siopa Ganolog, Canolfannau Rhanbarthol a Lleol (fel y dangosir ar Fap Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol) a pharedau masnachol llai;
- Ardaloedd preswyl (yn dibynnu ar fath yr eiddo a maint, cydnawsedd â defnydd tir cymdogol a’r effaith ar amwynderau preswyl).

5.3 Tybir yn gyffredinol mai'r lleoedd mwyaf priodol ar gyfer cyfleusterau gofal plant yw Tir Cyflogaeth Presennol, Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae a Chanolfannau Rhanbarthol a Lleol.

5.4 **Ardaloedd Diwydiannol a Swyddfa**

O fewn Tir Cyflogaeth Presennol, Ardaloedd Busnes Canol y Ddinas a'r Bae, ardaloedd cyflogaeth llai eraill ac o fewn datblygiadau cyflogaeth newydd arfaethedig, ystyrir cyfleusterau gofal plant yn gyfleusterau ategol priodol. Yn yr ardaloedd hyn, ystyrir cyfleusterau gofal plant arfaethedig yn dderbyniol:

- Lle maent yn briodol o ran maint a natur a lle mai'r bwriad yw bodloni anghenion gweithwyr yn y cyffiniau;
- Lle na fyddent yn denu lefelau sylweddol o ymwelwyr;
- Lle na fyddent yn cael effaith negyddol ar amodau gweithredu busnesau sydd eisoes yn bodoli.

5.5 **Yr Ardal Siopa Ganolog**

Ystyrir bod cyfleusterau gofal plant yn ddefnydd tir priodol yn yr Ardal Siopa Ganolog, gan gymryd na fyddai defnydd o'r fath yn effeithio ar rôl a chymeriad yr ardal siopa. Yn yr Ardal Siopa Ganolog a ddangosir ar Fap Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol, ystyrir cyfleusterau gofal plant arfaethedig yn dderbyniol lle:

- Maent yn ategu prif rôl siopa'r Ardal Siopa Ganolog ac nad ydynt yn niweidio bywiogrwydd ac ymarferoldeb yr ardal;
- Byddent yn gweithredu yn ystod oriau siopa arferol;
- Darperir arwyddion, blaen siop ac arddangosfeydd ffenestr boddhaol;
- Nad ydynt yn cyfrannu at golli defnydd siop A1 nac yn amharu ar rôl a chymeriad siopau o fewn y Ffryntiadau Siopa a Ddiogelir;
- Nad ydynt yn defnyddio ffryntiadau siopa llawr gwaelod, oherwydd byddai hyn yn amharu ar fywiogrwydd, ymarferoldeb a pha mor ddeniadol yw'r Ardal Siopa Ganolog;
- Nad ydynt yn amharu ar y defnydd o loriau uwch nac yn achosi mwy o ofod llawr uwch gwag.

5.6 **Canolfannau Rhanbarthol a Lleol**

Mae Canolfannau Rhanbarthol a Lleol yn rhai o'r lleoliadau mwyaf hygyrch ar gyfer cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus ac yn gyfleus ar gyfer rhieni sy'n gweithio mewn busnesau a siopau lleol. Yn y Canolfannau Rhanbarthol a Lleol a ddangosir ar Fap Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol, ystyrir cyfleusterau gofal plant arfaethedig yn dderbyniol lle:

- Maent yn ategu prif rôl a chymeriad siopa'r Ganolfan a lle na fyddent yn amharu'n annerbyniol ar fywiogrwydd, ymarferoldeb a pha mor ddeniadol yw ffryntiad penodol neu grŵp o ffryntiadau;
- Nad ydynt yn cyfrannu at golli defnydd siop A1;
- Byddent yn gweithredu yn ystod oriau siopa arferol;
- Darperir arwyddion, blaen siop ac arddangosfeydd ffenestr boddhaol;
- Nad ydynt yn amharu ar y defnydd effeithiol o loriau uwch nac yn achosi mwy o ofod llawr uwch gwag.

5.7 **Paredau siopa llai**

Gallai safleoedd masnachol presennol o fewn paredau siopa llai nad ydynt wedi'u dangos ar y Map Cynigion fod yn addas ar gyfer cyfleusterau gofal plant. Yn y paredau hyn, ystyrir cyfleusterau gofal plant arfaethedig yn dderbyniol lle:

- Na fyddent yn arwain at golli siopau lleol, lle bo gan y rhain rôl bwysig yn bodloni anghenion siopa lleol;

- Na fyddent yn effeithio ar ymarferoldeb y parêd at ddefnydd siopa parhaus;
- Byddent yn gweithredu yn ystod oriau siopa arferol;
- Darperir arwyddion, blaen siop ac arddangosfeydd ffenestr boddhaol;
- Na fyddent yn cael effaith annerbyniol ar amwynder preswyl.

5.8 **Ardaloedd Preswyl**

Mae ceisiadau am gyfleusterau gofal plant yn aml yn cynnig newid defnydd anheddau cyfredol, yn arbennig eiddo traddodiadol mwy o faint ger ardaloedd cyflogaeth, canolfannau siopa ac ysgolion. Mae cyfleusterau gofal plant yn swyddogaeth gymunedol bwysig. Maent yn gyfleusterau cymunedol a ystyrir yn briodol ac angenrheidiol, mewn egwyddor, mewn ardaloedd preswyl, gan gymryd yr ystyrir maint ac effaith ar amwynder preswyl. Yn yr ardaloedd preswyl hyn, ystyrir cyfleusterau gofal plant yn dderbyniol lle:

- Na fyddent yn cael effaith annerbyniol ar amwynder preswyl;
- Gallant gynnig trefniadau boddhaol o ran mynediad a pharcio;
- Gwneir trefniadau boddhaol o ran arwyddion ac arddangosfeydd ffenestr.

5.9 Wrth benderfynu a yw cynnig mewn ardal breswyl yn debygol o gael effaith negyddol annerbyniol ar amwynder preswyl, ystyrir y ffactorau canlynol:

- Math yr eiddo – y mwyaf addas fyddai eiddo amhreswyl sydd eisoes yn bodoli, anheddau sengl, parau o anheddau pâr neu anheddau pâr sy'n ffinio ag eiddo masnachol sydd eisoes yn bodoli;
- Nodweddion yr ardal – ystyrir cymeriad preswyl yr ardal a math a nifer y defnyddiau amhreswyl eraill yn y stryd;
- Mynediad ar drafnidiaeth ac eithrio car preifat a pha mor debygol yw'r cynnig o gynhyrchu traffig a galw am barcio;
- Y tebygolrwydd o sŵn, tarfu, arogleuon ac ati.
- Nifer y plant a fydd yn derbyn gofal a nifer y staff;
- Yr oriau gweithredu arfaethedig;
- Lleoliad ac agosrwydd ardaloedd chwarae awyr agored mewn perthynas â llety preswyl cyfagos.

5.10 Byddai unrhyw gynnig i ymestyn annedd i ddarparu ar gyfer cyfleuster gofal plant yn cael ei asesu ar ei rinwedd ei hun, a fyddai'n cynnwys ystyried dyluniad, cymeriad ac effaith ar amwynder preswyl.

## 6. YSTYRIAETHAU ERAILL

6.1 **Ystyriaethau Cyffredinol**

Disgwylir i bob cyfleuster gofal plant arfaethedig:

- Annog cerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na dibyniaeth ar gar preifat;
- Darparu cyfleusterau digonol ar gyfer casglu a storio gwastraff. Mae gan bob safle masnachol ddyletswydd gofal dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i sicrhau bod gwastraff yn cael ei drosglwyddo i, a'i waredu gan, gludwr gwastraff cofrestredig;
- Cynnwys mesurau digonol i ddelio â sŵn, lle bo angen, i darfu cyn lleied â phosibl ar adeiladau cyfagos;
- Cael ei ddiogelu'n ddigonol rhag effeithiau negyddol o ddefnydd tir cyfagos, er enghraifft sŵn, arogleuon neu lygredd aer.

6.2 **Ystyriaethau Priffyrdd**
Gall cyfleusterau gofal plant arwain at alw sylweddol am barcio arhosiad byr, yn enwedig yn ystod oriau brig. Mae cynigion a fyddai'n annog parcio arhosiad byr mewn ardaloedd amhriodol, e.e. ger cyffyrdd, croesfannau i gerddwyr, safleoedd bws ac ati, yn annhebygol o gael eu derbyn. Byddai angen i gynigion ddangos tystiolaeth o ddarpariaeth ddigonol i staff a rhieni sy'n gollwng a chasglu eu plant.

6.3 **Arwyddion ac Arddangosfeydd Ffenestr**
Mewn ardaloedd siopa a masnachol mae'n bwysig bod arwyddion ac unrhyw ffryntiadau siop neu arddangosfeydd ffenestr yn ategu'r ardal gyfagos. Os byddai'r cyfleuster o fewn ffryntiad siopa, dylid parhau i gynnig blaen siop ac arddangosfeydd addas i osgoi amharu ar y ffryntiad ac unrhyw effaith negyddol ar fywiogrwydd.

6.4 Mewn ardaloedd preswyl, mae angen ystyried arwyddion ac arddangosfeydd ffenestr sy'n tynnu sylw at bresenoldeb cyfleuster gofal plant yn ofalus fel nad ydynt yn cael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal breswyl. Ni chaiff arwyddion ac arddangosfeydd ffenestr eu derbyn yn gyffredinol mewn ardaloedd amgylcheddol sensitif, megis Ardaloedd Cadwraeth.

6.5 **Gofynion Deddfwriaethol Eraill**
Mae caniatâd cynllunio yn un o blith caniatadau amrywiol y mae eu hangen cyn y gall cyfleuster gofal plant ddechrau gweithredu. Dylai ymgeiswyr gysylltu ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) cyn cyflwyno cais cynllunio i sicrhau bod yr holl ofynion ffisegol, e.e. safonau gofod gofynnol, yn debygol o gael eu bodloni gan gynnig cyn iddo gael ei gyflwyno.

## 7. AMODAU

7.1 Os caiff caniatâd cynllunio ei roi ar gyfer cyfleuster gofal plant, gellid gosod nifer o amodau:

- Gellid cyfyngu ar oriau gweithredu – yn arbennig mewn perthynas â cheisiadau o fewn ardaloedd preswyl er mwyn diogelu amwynder preswyl;
- Y nifer fwyaf o blant y gellir gofalu amdanynt – er mwyn lleihau'r effaith ar feddianwyr eiddo cyfagos;
- Gallai fod angen cyfyngiadau ar ddefnydd o ardaloedd chwarae awyr agored dan amgylchiadau penodol;
- Mesurau atal sŵn;
- Gofynion parcio ceir;
- Gosod system echdynnu mygdarth coginio, yn dibynnu ar faint a lleoliad y cyfleuster gofal plant sy'n cael ei gynnig;
- Cyfyngiadau ar newidiadau defnydd pellach – gallai fod angen atal newidiadau defnydd i ddefnyddiau eraill o fewn y dosbarth defnydd D1.

## 8. GOFYNION CYFLWYNO CANIATÂD CYNLLUNIO

8.1 Wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio am gyfleuster gofal plant, dylai'r cais gynnwys digon o wybodaeth i'r cynnig gael ei ystyried yn llawn. Dylai gynnwys gwybodaeth ddigonol am:

- Nifer y plant a fydd yn derbyn gofal;
- Nifer y staff;
- Oriau agor arfaethedig;
- Manylion unrhyw fesurau atal sŵn, lle bo angen;

- Manylion am unrhyw system echdynnu mygdarth coginio, lle bo angen;
- Cynlluniau llawr sy'n dangos y trefniadau mewnol arfaethedig, yn ogystal ag unrhyw ardaloedd chwarae awyr agored sy'n cael eu cynnig;
- Trefniadau storio gwastraff arfaethedig.